

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

18 Medi 2020
Cyfarfod Rhithwir
10.00 – 1.00

SESIWN AGORED: 10.00 – 1.00

Presennol:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)	Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Eleri Twynog Humphries	Liz Siberry
Gwilym Dyfri Jones	Yr Arglwydd Aberdâr
Steve Williams	Gwenllian Lansdown Davies
Mike Cavanagh	Quentin Howard

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

Staff eraill:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)

Sylwedyddion:

Catrin Hughes	CyMAAL
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i bedwerydd cyfarfod rhithwir Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell, gan estyn croeso arbennig i Chris Roscoe o Gyfoeth Naturiol Cymru, aelod o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o gynllun chwith-mentora'r Academi.

Diolchodd y Llywydd i'r staff hynny a fu'n gyfrifol am sicrhau fod gwaith adeiladu mewnol yr adeilad wedi medru parhau yn ystod y cyfnod anarferol yma a nododd fod gwelliannau rhagorol i'w gweld yn y Prif Gyntedd ac Oriol Gregynog. Diolchwyd hefyd i'r staff hynny a fu'n cynnal sesiynau ar-lein

ar lwyfannau 'Curaduron yn Cyflwyno' a'r 'Eisteddfod Amgen' yn ystod yr haf, gan alluogi'r Llyfrgell i ymestyn allan i gynulleidfaoedd niferus.

Roedd y Llywydd hefyd yn ddiolchgar i'r staff diogelwch am eu hymroddiad yn ystod y pandemig gan ddiogelu'r adeilad ac iechyd y staff ac aelodau'r cyhoedd.

Adroddwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Dirprwy Weinidog yn gynharach yn yr wythnos. Prif destun y cyfarfod oedd y sefyllfa gyllidol. Nodwyd yn y cyfarfod sut y bu i Siambr Seren y Llywodraeth ystyried pecyn a fyddai'n cynorthwyo'r sefydliadau hyd-braich sydd wedi dioddef oherwydd y pandemig, ond yn anffodus nid oedd modd i'r Dirprwy Weinidog rannu unrhyw wybodaeth ynghylch penderfyniad y Siambr. Disgwylir i'r gyllideb gael ei chyhoeddi ar 8 Rhagfyr, ond hyd yma, nid oes llawer y medrir ei adrodd ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol gyffredinol.

Disgwylir i'r Adolygiad Teilwredig gael ei gyhoeddi wythnos nesaf, a bydd datganiad ar y cyd yn cael ei gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell; yn dilyn hynny, bydd Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell yn gweithio ar gynllun gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

Diweddarwyd y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r Cynllun Strategol a fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Bydd proses penodiadau cyhoeddus ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell yn cychwyn yn fuan i benodi Llywydd, Trysorydd a phum Ymddiriedolwr. Anogir pawb i feddwl am unigolion cymwys a fyddai'n medru cael eu hannog i ymgeisio am y swyddi yma.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carl Williams, Anwen Jones, Elin Royles, Hugh Thomas a Steffan Roberts, CyMAAL.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELP ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriel Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Gregynog, yn Ymddiriedolwr Cymdeithas Sir Frycheiniog, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi eleni gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 24 Gorffennaf 2020 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 24 Gorffennaf fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Materion yn codi o gofnodion 24 Gorffennaf

Codi Arian

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Codi Arian ar 10 Medi, a diolchodd y Prif Weithredwr i'r Arglwydd Aberdâr, Liz Siberry, Eleri Twynog Humphries a Meri Huws am ymuno. Mi fydd y grŵp yma yn trosi'n Grŵp Tasg a Gorffen, gyda'r gorchwyl o ddrafftio strategaeth codi arian cyn diwedd y flwyddyn. Mi fydd y grŵp yn cyfarfod eto mewn mis i dderbyn adroddiad cynnydd.

Bwrdd Cynllun Pensiwn

Yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhawyd y byddai Anwen Jones yn ymuno fel Ymddiriedolwr â'r Bwrdd Cynllun Pensiwn, a nododd y Llywydd ei bod hithau wedi gwirfoddoli i ymuno fel yr ail Ymddiriedolwr. Cafwyd cytundeb yr holl aelodau i'r penodiadau yma.

Isadeiledd Technegol

Cafwyd diweddariad ynglŷn â'r digwyddiad yn Hydref 2019 a arweiniodd at orfod galw'r frigâd dan i ddelio a digwyddiad ble bu i offer or-gynhesu. Mae cais wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf i gyfnewid offer, ac mae'r Llyfrgell yn aros i glywed y canlyniad. Mae hyn wedi ei drafod gan y Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol, ac yn flaenoriaeth uchel i'r Llyfrgell.

Black Lives Matter

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd fod rhaglen waith mewnol ar gael, a bod y mater hefyd yn cael ystyriaeth wrth ddrafftio'r Cynllun Strategol newydd.

Diogeledd Seiber

Yn dilyn y cyfarfod, mi fydd linc i “toolkit” diogeledd seiber y National Cyber Security Centre yn cael ei gylchredeg i’r aelodau. Bydd angen i’r aelodau benderfynu sut maent am weithredu’r hyfforddiant yma.

1.4.1. Log Gweithredu 24.07.20

Cyfan wedi eu cwblhau neu ar waith.

1.5 Cofnodion cyfarfod caeedig 24 Gorffennaf

Os oes unrhyw sylwadau ar gofnodion cyfarfod caeedig 24 Gorffennaf, dylid eu cyflwyno i’r Llywydd a/neu Glerc y Bwrdd.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Strategaeth Ryngwladol

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddrafft cychwynnol lefel uchel o’r Strategaeth, gan nodi mai dyma’r strategaeth ryngwladol gyntaf i’r Llyfrgell ystyried ei mabwysiadu. Mae’r drafft yn tynnu ar strategaeth Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, sydd wedi derbyn cefnogaeth draws bleidiol. Bwriad y strategaeth yma yw;

1. Rhoi cyfle i fynd â’n diwylliant i’r byd
2. Cefnogi strategaeth ganolog Llywodraeth Cymru, a chyfle i gydweithio â swyddogion rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar draws y byd
3. Cyfle i godi arian a meithrin perthnasau

Croesawyd y Strategaeth gan yr aelodau fel cam positif iawn wrth fynd ati i amlygu cyfoeth ein diwylliant a’n casgliadau i’r byd.

Ymhlith sylwadau a dderbyniwyd, nodwyd bod angen rhoi sylw i dirlun Cymru wrth ddatblygu’r naratif gan fod y tirlun yn chwarae rhan mor amlwg yng ngweithiau nifer o artistiaid ac wedi ysbrydoli nifer, ac mae’n gweddu hefyd gyda blwyddyn thematig 2020, Awyr Agored. Gall y strategaeth fod yn gyfle i amlygu cyfoeth ein casgliadau. Pwysleisiwyd yr angen i ffocysu ar wneud rhai pethau yn dda, yn hytrach na cheisio cyflawni gormod, a cheisio meithrin rhwydweithiau gyda chymdeithasau a Chomisiynwyr Ieithoedd Lleiafrifol.

Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau pellach ar y drafft cychwynnol i’r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd erbyn 1 Hydref, a bydd fersiwn diwygiedig yn cael ei gyflwyno i’r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

2.2 Effaith Covid-19 ar weithgareddau a digwyddiadau'r Llyfrgell

Cyflwynodd Owain Roberts ddiweddariad ar weithgareddau a digwyddiadau, a nododd bod yr ystafell ddarllen wedi ail agor gyda gwasanaeth cyfyngedig ar 1 Medi. Diolchodd i'r staff am eu gwaith i sicrhau medru ail agor ac adroddodd fod yr adborth hyd yma wedi bod yn bositif.

Mae'r gweithgareddau canlynol hefyd wedi eu hadfer;

- Derbyn a phrosesu eitemau ffisegol (gan gynnwys eitemau adnau cyfreithiol)
- Gwaith cadwraethol ar eitemau ffisegol
- Gwaith curadurol ar y safle
- Gwaith digido

Mae tua 60 o staff ar y safle yn ddyddiol, ond mae tua 120 wedi eu hanwytho i ddod i mewn ar wahanol gyfnodau.

Nodwyd pryder fod y Llyfrgell yn cynnig copïau di-dâl o ddeunydd print i ddefnyddwyr o bell trwy'r gwasanaeth sganio cyflym, yn enwedig gan fod y Llyfrgell yn colli incwm yn sgil Covid-19, ond nodwyd mai pris bach i'w dalu oedd hyn er mwyn lliniaru effeithiau cyfyngedig y gwasanaeth presennol nad oedd cystal a'r hyn yr ydym yn ei ddarparu fel arfer.

Nodwyd bod cynnydd yn y defnydd o adnoddau ar-lein, ac anogwyd y Llyfrgell i edrych ar adborth o ba wasanaethau sydd wedi cael y defnydd mwyaf i yrru'r agenda digidol yn y cyfnod nesaf.

Bydd ap Covid-19 y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cael ei ryddhau ar 24 Medi, ac mae'r Llyfrgell yn cadw llygad ar y sefyllfa, ac yn bwriadu ei weithredu pan fydd wedi ei ryddhau; sicrhawyd yr aelodau, serch hynny, fod system tracio ag olrhain yn weithredol yn yr adeilad.

Nododd Owain Roberts y byddai'r Gwasanaeth Addysg yn gweithio yn y meysydd canlynol yn ystod y misoedd nesaf, sef:

- Cynyddu adnoddau digidol ar-lein
- Rhaglen rithwir o sesiynau Zoom i gynnal gweithdai o bell
- Ymateb i Bil y Cwricwlwm

Cafwyd cadarnhad y bydd y siop ar-lein yn weithredol erbyn masnachu'r Nadolig, yn dilyn datrys rhai problemau technegol. Nodwyd hefyd y bydd y Llyfrgell yn cydweithio gyda'r Cyngor Llyfrau i werthu ei llyfrau. Er nad yw'r Llyfrgell yn defnyddio Amazon ac eBay ar hyn o bryd ar gyfer gwerthu nwyddau, roedd yr aelodau'n awyddus i'r Llyfrgell ystyried cael presenoldeb ar blatfformau gwerthu amgen i gynyddu ei hincwm masnachol.

Wrth symud ymlaen, cytunwyd y dylai'r adroddiad yma adrodd ar gynlluniau at y dyfodol – tymor canolig a hir dymor, fydd yn gorfod digwydd yn sgil parhad y pandemig.

2.3 Polisi Arian Wrth Gefn

Cyflwynwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 14 Awst, ble trafodwyd y lefel briodol o arian wrth gefn (£10m) a diweddarau'r defnydd y gellir ei wneud ohonynt.

Pennwyd isafswm o £10m, gyda £5.5m o hwn wedi ei glustnodi'n amcanol fel cronfa waddol ar gyfer yr Archif Ddarlledu Genedlaethol (ADdG), a £4.5m fel arian wrth gefn amodol cyffredinol. Gosodwyd y symiau yma am y rhesymau canlynol;

- Mae'r arian ar gyfer yr ADdG wedi ei osod yn £5.5m gan mai dyma'r lefel o adnoddau cyfalaf a ddisgwylir y bydd ei angen i gynhyrchu incwm o £200k i ariannu costau gweithredol ar gyfradd adennill o 3.5%.
- Mae'r lefel arian wrth gefn cyffredinol wedi ei osod yn £4.5m gan ystyried lefel cyffredinol risgiau ariannu mae'r Llyfrgell yn ei hwynebu mewn perthynas â'r lefel sicrwydd sydd ganddi o ran ei chyllid GIA a'r galw all fod ar arian wrth gefn i ariannu eitemau eraill .

Sicrhawyd y Bwrdd y byddai'r Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol oherwydd anweddolrwydd y byd cyllidol, ac er bod yr aelodau yn cytuno fod hyn yn gam synhwyrol, gofynnwyd i gynnwys cymal yn datgan na ddylai'r cronfeydd syrthio o dan £10m o gwbl; byddai hyn yn osgoi gorfod adolygu'r Polisi ar frys petai digwydd i'r cronfeydd syrthio o dan £10m yn annisgwyl.

Nodwyd bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu gan Investec, y rheolwyr buddsoddi, sy'n rhoi sicrwydd i'r Llyfrgell ac yn lliniaru'r risgiau gymaint ag sy'n bosibl. Bydd Investec yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 16 Hydref, a bydd diweddiariad yn cael ei baratoi i'r Bwrdd yn dilyn hynny.

Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor i gymeradwyo'r Polisi Arian Wrth Gefn, yn amodol ar gynnwys cymal sy'n nodi - Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd yn achosi i werth yr arian wrth gefn gwmpo o dan £10m, yna bydd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ystyried y mater yn ei gyfarfod nesaf.

O ran defnyddio hyd at £1m i ariannu costau diswyddo, sicrhawyd yr aelodau nad oedd arian cyhoeddus ar gael i weithredu hyn, ac os na ddefnyddir arian preifat, byddai'n rhaid i'r Llyfrgell wneud mwy fyth o arbedion. Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor y gellir defnyddio'r arian wrth gefn i gefnogi'r ailstrwythuro, ond roeddent yn anghyffyrddus ynglŷn â phennu swm penodol tuag at hyn.

Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor felly i ddefnyddio swm o arian, sydd eto i'w bennu, ond yn debygol o fod yn swm sywleddol, o'r cronfeydd preifat i gefnogi'r ailstrwythuro ac ariannu'r diswyddiadau.

2.4 Llinell Amser Gweithgareddau

Cyflwynwyd y llinell amser i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 14 Awst, yn dilyn cais yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Diolchodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd i Annwen Isaac am ei baratoi, a nododd y bydd unrhyw amrywio o'r amserlen yn cael ei adrodd i'r Bwrdd yn syth. Roedd yr aelodau'n falch iawn o gael eu diweddarau ar yr amserlen.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad, gan roi crynodeb o'r hyn sydd ar waith ers ysgrifennu'r adroddiad.

Archif Ddarlledu Genedlaethol

Cyfarfu Pwyllgor Cymraeg Cronfa Treftadaeth y Loteri ar 10 Medi, ac maent wedi cymeradwyo'r weledigaeth newydd ar gyfer yr Archif, ond maent wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn rhai meysydd a fydd yn cryfhau'r cais ymhellach er mwyn sicrhau fod Pwyllgor y Deyrnas Unedig yn ei gymeradwyo ymhen y rhawg.

Roedd y Pwyllgor am bwysleisio hefyd fod llwyddiant y cais yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru o £1m tuag at y prosiect. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn copi o'r cais diwygiedig ym mis Awst, ac wedi gofyn am fwy o wybodaeth. Cafwyd cadarnhad gan Catrin Hughes o CyMAAL fod y cynllun newydd yn agosach at yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru'n dymuno ei weld, a bod y Dirprwy Weinidog yn croesawu'r newidiadau. Mae'r £1m yn parhau i fod wedi ei chlustnodi ar gyfer y prosiect gan Lywodraeth Cymru, a gobaith Catrin oedd cyflwyno cynllun busnes newydd i'r Dirprwy Weinidog yn fuan.

Adolygiad Teilwredig

Mae datganiad i'r wasg wedi ei ddrafftio gan y Llyfrgell a'i anfon at Lywodraeth Cymru fore heddiw am ei cyfraniad hwy. Bydd datganiad ar y cyd yn cael ei gyhoeddi wythnos nesaf.

Maniffesto Gwleidyddol

Mae'r Prif Weithredwr wedi drafftio maniffesto gwleidyddol a obeithir ei rannu gydag awduron maniffestos y pleidiau gwleidyddol.

Amgueddfa Cymru

Nodwyd hefyd fod trafodaethau defnyddiol wedi digwydd yn ddiweddar rhwng Llywyddion a Phrif Weithredwyr y Llyfrgell a'r Amgueddfa i drafod materion o ddiddordeb cyffredinol a rhannu gwybodaeth.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol a rhai Adrannol

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 24 Gorffennaf, gofynnwyd am gael gweld cofrestri risg adrannol y Llyfrgell, i'r Ymddiriedolwyr fedru bodloni eu hunain fod risgiau adrannol yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn fater sydd wedi ei amlygu gan Archwilio Cymru a'r Comisiwn Elusennau yn sgil Covid-19, ac roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch o dderbyn sicrwydd fod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ar lefel adrannol a chorfforaethol o fewn y Llyfrgell.

Gan fod y Bwrdd wedi derbyn y sicrwydd priodol penderfynwyd na fydd angen cyflwyno'r cofrestri yma i'r Bwrdd o hyn allan, ond ystyriwyd y byddai'n ddiwydrwydd priodol i gylchredeg rhestr ohonynt, ynghyd â'r dyddiadau pan maent yn cael eu diwygio/diweddaru i gyfarfodydd y Bwrdd.

Gwnaed awgrym y dylid cysoni'r cofrestri i fod yr un fath a'r Gofrestr Risg Corfforaethol, ac ystyried defnyddio fformat safonol ar eu cyfer. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Risg wneud "deep dive" o ardal benodol ymhob un o'i gyfarfodydd i sicrhau cadernid.

Nodwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol ac nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr aelodau.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Cyfrifon Rheoli Gorffennaf 2020

Cyflwynwyd y Cyfrifon Rheoli gan David Michael, wnaeth dynnu sylw at y ffaith fod incwm masnachol wedi gostwng i £17k, ond bod y Llyfrgell wedi derbyn dros £200k o'r cynllun ffyrlo. Unwaith bydd staff yn ôl yn gweithio yn yr adeilad, mi fydd arian y cynllun ffyrlo yn diflannu.

Mae'r tanwariant o £163k ar gostau nad sy'n rhai staff i'w briodoli i'r ffaith fod y Llyfrgell wedi bod ar gau oherwydd Covid-19.

Mi fydd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn derbyn cyfrifon rheoli mwy diweddar i'w craffu yn ei gyfarfod ar 16 Hydref, ac mi fydd hefyd yn adolygu'r gyllideb, a chyflwyno cyllideb ddiwygiedig i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

GADAWODD ELERI TWYNOG HUMPHRIES Y CYFARFOD AM 12.10

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 14.08.20

Nododd y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, y byddai trafodaethau ar y Telerau Diswyddo a'r Cynllun Pensiwn yn digwydd yn y sesiwn gaeedig i ddilyn y cyfarfod yma. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau na sylwadau ar y cofnodion drafft.

6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 04.09.20

Am amryw resymau, nid oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ers Mai 2019, ond mae nawr wedi ei ail sefydlu, gyda Meri Huws yn y gadair. Mi fydd rôl bwysig gan y Pwyllgor yma i graffu ar y cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, ac i'r perwyl hynny, mae cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer 2 Tachwedd. Mi fydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ar y camau cychwynnol.

6.3 Cofnodion Drafft Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 04.09.20

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r gwaith tu fewn i'r adeilad wedi ei gwblhau ac eithrio ffenestri Ystafell Ddarllen y Gogledd. Disgwylir i'r gwaith ar Oriol Gregynog gael ei gwblhau yn y pedair wythnos nesaf.

Hawliad asbestos - mi fydd David Michael yn dilyn hyn i fyny gyda'r cyfreithwyr.

Awgrymwyd y dylid tynnu lluniau a chreu ffilm i ddangos y gwaith sydd wedi digwydd y tu fewn i'r adeilad yn ystod y misoedd diwethaf i'r Ymddiriedolwyr.

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2020

Gofynnwyd i Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu gael ei osod ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd, gan nad yw'r Bwrdd wedi derbyn un yn y ddau gyfarfod diwethaf.

8. Unrhyw fater arall

Gofynnwyd a fyddai modd i Ymddiriedolwyr ymweld â'r adeilad os oeddent yng nghyffiniau Aberystwyth; nododd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd y byddai croeso iddynt wneud ond y byddai rhaid trefnu hynny ymlaen llaw.

**** DIWEDD Y CYFARFOD AGORED ****